# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 03/02/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

*O dan Reol Sefydlog Rhif 7.50, atebwyd y cwestiynau gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb.*

### Y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

**C10 Lorraine Barrett :** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol? OAQ(3)1050(SJL)

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Ers iddi gael ei lansio ym mis Tachwedd 2002, mae'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol wedi dyfarnu mwy na £70.5 miliwn i 708 o brosiectau ledled Cymru. Cyn bo hir, byddaf yn cyhoeddi pa geisiadau a fu'n llwyddiannus yn rownd bidio Hydref 2009.

### Blaenoriaethau

**C11 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar draws ei bortffolio? OAQ(3)1046(SJL)

**Jane Hutt:** Yn ogystal â hyrwyddo cymunedau diogel a chynaliadwy, hybu mwy o gydlyniant cymunedol, a mynd i'r afael â thlodi plant, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'r dirywiad economaidd er mwyn helpu pobl, busnesau a chymunedau.

### Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**C12 Alun Cairns:** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol? OAQ(3)1083(SJL)

**Jane Hutt:** Mae'r gronfa Cymunedau Diogelach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu £4.5 miliwn i'r partneriaethau diogelwch cymunedol yn 2009-10. Mae'r gronfa yn cynorthwyo prosiectau sy'n mynd i'r afael â throseddu ymysg ieuenctid, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yr ydym hefyd yn awyddus iawn i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, ac yr ydym yn darparu £19.7 miliwn i'r partneriaethau diogelwch cymunedol.

### Diogelwch Cymunedol

**C13 Leanne Wood:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch diogelwch cymunedol? OAQ(3)1064(SJL)

**Jane Hutt:** Yr wyf i a Gweinidogion eraill Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn sylwadau'n rheolaidd am bob math o faterion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio'n agos â'r partneriaethau diogelwch cymunedol i sicrhau dull cydlynol, aml-asiantaeth o fynd i'r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru.

### Targedau Tlodi Plant

**C14 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dargedau tlodi plant Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1052(SJL)

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i fonitro ein hynt wrth gyflawni ein targedau o ran tlodi plant, a'r monitor lles plant a phobl ifanc fydd y prif fodd o wneud hynny. Yn ogystal â hyn, mae gwefan Ystadegau Cymru bellach wedi ychwanegu ffocws ar dargedau tlodi plant, gan gynnwys adroddiad cyfun lle mae'r data yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

### Mynediad i Bobl Anabl

**C15 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella mynediad i bobl anabl yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)1055(SJL)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn arwain ar hyrwyddo cyfle cyfartal i'n holl ddinasyddion a sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau yn hygyrch i bobl anabl ledled Cymru gyfan.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

### Lleoedd Dros Ben mewn Ysgolion Uwchradd

**C10 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am leoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru? OAQ(3)1218(CEL)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Leighton Andrews):** Disgwyliaf i awdurdodau lleol gynllunio lleoedd mewn ysgolion yn strategol ac i ddarparu addysg o ansawdd uchel er budd dysgwyr. Mae'r agenda drawsnewid yn mynd i'r afael â materion effeithlonrwydd yn y sector uwchradd, a disgwyliaf y bydd y lleoedd dros ben, sef 37,000 ohonynt ar hyn o bryd, yn lleihau o ganlyniad i hynny.

### Bagloriaeth Cymru

**C11 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fagloriaeth Cymru? OAQ(3)1217(CEL)

**Leighton Andrews:** O fis Medi eleni, bydd 53,000 o ddysgwyr yn dilyn bagloriaeth Cymru mewn 217 o ganolfannau yng Nghymru.

### Blaenoriaethau

**Q12 Gareth Jones**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y tymor newydd? OAQ(3)1243(CE) [W]

**Leighton Andrews**: Mae blaenoriaethau'r Llywodraeth yn parhau fel y maent wedi'u nodi yn 'Cymru'n Un', gyda mesurau ychwanegol i ymateb i'r dirywiad economaidd. Fy nod i yw

sicrhau bod mwy o adnoddau yn cyrraedd y rheng flaen. Oherwydd hynny, cyhoeddais adolygiad o gost gweinyddu'r system addysg.

### Addysg ôl-16

**C13 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg ôl-16 yn Rhondda Cynon Taf? OAQ(3)1231(CEL)

**Leighton Andrews:** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrthi'n archwilio cynigion i ad-drefnu addysg a dysgu ôl-16. Oherwydd rôl statudol Gweinidogion Cymru wrth benderfynu ar gynigion, byddai'n amhriodol imi roi sylwadau pellach.

### Cyllid ar gyfer Disgyblion

**C14 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(3)1234(CEL)

**Leighton Andrews:** Mae cyllid ar gyfer ysgolion wedi cynyddu 71 y cant er 1999-2000, ac mae'r gwariant fesul disgybl wedi cynyddu 81 y cant. Ledled Cymru, mae gan ysgolion warged net o £74.7 miliwn.

### Cynorthwywyr Dosbarth

**C15 Janet Ryder**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth cynorthwywyr dosbarth? OAQ(3)1222(CEL)

**Leighton Andrews:** Mae gan gynorthwywyr dosbarth rôl bwysig wrth sicrhau bod ysgolion yn rhedeg yn effeithiol, ac mae'r Llywodraeth hon yn gwerthfawrogi eu cyfraniad yn fawr.